

Y GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 13 GORFFENNAF 2016

Aelodau

Carl Sargeant AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Lefftenant-cyrnol Jonah MacGill	Brigâd 160 Cymru
Comodor yr Awyrlu Adrian Williams	Yr Awyrlu Brenhinol
Sara Baade	Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin
Colin Jones	Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol
Jane Williams	Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges
Dawn North	HIVE
Peter Evans	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Seb Hargeaves	Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
Lefftenant-cyrnol Stephen Hughes	Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetaid Cymru (RFCA)
Cyrnol Nick Beard	Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetaid (RFCA)
Stephen John	Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetaid (RFCA)
William Lyn	Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn
Mike Bailey	Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr
Rachel Morgan	CLILC
Is-gomander Jonathan Buckley	Y Llynges Frenhinol
Huw Thomas	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Martin Swain	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Jan Jones	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Jason Pollard	Llywodraeth Cymru – Iechyd Meddwl
Paige Rouse	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol

Ymddiheuriadau

Dr Sarah Watkins	Llywodraeth Cymru – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Debbie Whittingham	COBSEO
Bill Mahon	Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol
Chris Downward	SSAFA
Cerys Gage	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Annabel Ingram	Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin
Peter Higson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cynghoryddr Brendan Toomey	CLILC

EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i'w gyfarfod cyntaf o'r Grŵp Arbenigol a chroesawodd yr aelodau newydd hefyd i'w cyfarfod cyntaf hwythau. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod Dr Sarah Watkins, Debbie Whittingham, Bill Mahon, Chris Downward, Cerys Gage, Annabel Ingram, Peter Higson a'r Cynghorydd Brendan Toomey wedi ymddiheuro.

EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 3 RHAGFYR 2015

- 2.1 Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i gymeradwyo'r cofnodion gan nodi y cytunwyd eu bod yn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CAMAU A GYMERWYD YN DILYN Y CYFARFODYDD BLAENOROL

- 3.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr holl gamau wedi'u cymryd ac nad oedd unrhyw wybodaeth arall i'w nodi.

EITEM 4 - TRAFODAETH AR YR HERIAU A'R BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL A BENNWDYD GAN AELODAU'R GRŴP ARBENIGOL

- 4.1 Rhoddodd y Lefftenant-cyrnol Jonah MacGill y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am Lwybr Cyflogadwyedd y Lluoedd Arfog. Cwrs wythnos o hyd yw hwn a nodwyd bod 70% o'r rhai a'i dilynodd wedi llwyddo i gael gwaith neu wedi ymuno â'r Lluoedd Arfog. Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cyfeirio'r ymgeiswyr at y cwrs ac mae gan y Lluoedd Arfog berthynas dda â'r Adran. At ei gilydd, mae wyth o gyrsiau wedi'u cynnal, gan gynnwys cwrs peilot. Mae cynlluniau i gynnal tri arall eleni ac i wahodd Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet. Mae'r cwrs wedi llwyddo i newid bywydau nifer lawer.
- 4.2 Roedd y Lefftenant-cyrnol Jonah MacGill yn gobeithio y byddai Brigad 160 y Troedfilwyr a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio i gefnogi ac ariannu'r cwrs hwn.
- 4.3 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn falch o'r hyn y mae'r cwrs wedi'i gyflawni a gofynnodd a fyddai modd darparu'r ystadegau manwl perthnasol erbyn cyfarfod nesaf y Grŵp Arbenigol.

Cam i'w gymryd:

- **Y Lefftenant-cyrnol Jonah MacGill i anfon ystadegau manwl am Lwybr Cyflogadwyedd y Lluoedd Arfog at Ysgrifennydd y Cabinet erbyn cyfarfod nesaf y Grŵp Arbenigol.**
- 4.4 Rhoddodd Comodor yr Awyrlu Adrian Williams y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am yr hyfforddiant i beilotiaid awyrennau cyflym yn RAF y Fali,

Ynys Môn, gan gadarnhau y byddai nifer sgwadronau'r Awyrlu Brenhinol yn cynyddu'n dilyn yr Adolygiad Strategol Amddiffyn a Diogelwch ac y byddai hyn yn arwain at fwy o fuddsoddiad a hyfforddiant yn RAF y Fali.

- 4.5 Nodwyd bod yr Awyrlu Brenhinol yn aros i glywed am ddyfodol Ysgol Hyfforddiant Technegol Rhif 4. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac yn gobeithio y caiff penderfyniad ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.
- 4.6 Cyhoeddodd Comodor yr Awyrlu Adrian Williams hefyd y bydd yr Awyrlu Brenhinol yn dathlu ei ganmlwyddiant yn 2018 ac y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw awgrymiadau ynghylch digwyddiadau i ddathlu'r canmlwyddiant.

Cam i'w gymryd:

- **Llywodraeth Cymru i gasglu syniadau ac awgrymiadau ynghylch digwyddiadau posibl i ddathlu canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol yn 2018.**
- 4.7 Soniodd Peter Evans am yr her o wella'r data i gefnogi'r Cyfamod Cymunedol. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol arwain yr ymgyrch *Count Them In* ar hyd o bryd. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i'r gwaith hwn ond roedd am sicrhau bod y data'n ddiogel, rhag creu risg i gyn-filwyr.
 - 4.8. Pwysleisiwyd bod deddfwriaeth cyfrifiad ar gael ar hyn o bryd yn ymwneud â natur sensitif y data, ond ni chafwyd unrhyw broblem yn ystod y 100 mlynedd diwethaf. Trafodwyd y mater hwn â Llywodraeth y DU.
 - 4.9 Dywedodd Peter Evans nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o ddata ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r rheswm dros gael Hyrwyddwyr Cyfamod ym mhob awdurdod lleol oedd helpu i roi'r cyfamod ar waith ac i ymgymryd â gweithgareddau, ac nad teitl gwag mohono. Aeth rhagddo i ddweud y bydd Cynhadledd Cyfamod yn yr hydref a'i bod yn bwysig bod y Lluoedd Arfog yn cael eu clodfori drwy gydol y flwyddyn ac nid dim ond ar ddiwrnodau penodol fel Diwrnod y Lluoedd Arfog.
 - 4.10 Tynnwyd sylw'r Grŵp at y ffaith bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal digwyddiadau i Hyrwyddwyr a bod Hyrwyddwr ynghlwm wrth bob uned filwrol. Y rheswm dros hyn oedd sicrhau bod y gymuned yn gwybod bod y Lluoedd Arfog yno bob amser, nid dim ond am un diwrnod yr wythnos. Roedd y Tri Gwasanaeth yn awyddus i integreiddio yn y cymunedau lle maent wedi'u lleoli a dangos nad ydynt yn wahanol i neb arall yn y cymunedau hynny.

4.11 Cytunwyd bod angen i'r Grŵp Arbenigol ystyried dulliau o gyfathrebu i sicrhau bod neges y Lluoedd Arfog yn cael ei chlywed drwy gydol y flwyddyn.

Cam i'w gymryd:

- **Aelodau'r Grŵp i weithio gyda'r tîm Cyfathrebu yn eu sefydliadau i sicrhau bod neges y Lluoedd Arfog yn cael ei chlywed drwy gydol y flwyddyn a bod pobl Cymru yn cael eu hatgoffa o'u gwaith yn feunyddiol.**

4.12 Rhoddodd Jane Williams y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am y gwaith sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Gyngor Swydd Warwick. Maent wedi cyhoeddi dogfen gwasanaethau cwsmeriaid sy'n cynnwys canllawiau cryno ar y Lluoedd Arfog o'r lefel strategol i lefel y cyhoedd. Maent yn gobeithio lansio'r fenter yn y dyfodol agos. Cynlluniwyd y ddogfen i roi darlun clir o fywyd cyn-filwyr ac i rannu gwybodaeth ac arfer da. Bydd y ddogfen ar gael i'w dosbarthu i awdurdodau lleol eraill ac ni fydd unrhyw dâl ychwanegol amdani.

4.13 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet y syniad gan gadarnhau y bydd yn ei ystyried.

Cam i'w gymryd:

- **Jane Williams i roi gwybod i Jan Jones pryd y bydd Cyngor Swydd Warwick yn lansio'u dogfen gwasanaethau cwsmeriaid. Gall Jan ei dwyn i sylw Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn iddo'i hystyried.**

4.14 Esboniodd Peter Evans fod y Lleng Brydeinig Frenhinol wedi darparu pecynnau hyfforddi ar y Cyfamod i 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a byddai'n barod i wneud hynny eto yn y dyfodol.

4.15 Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n ysgrifennu at y Cynghorydd Brendan Toomey (CLICC) i ofyn am esboniad a chysondeb o ran yr hyfforddiant ar y Cyfamod ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Awgrymwyd hefyd y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ofyn a oedd pob awdurdod lleol yn cynnwys cwestiwn am fod yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog pan fydd pobl yn cysylltu gyntaf i holi am wasanaethau.

Cam i'w gymryd:

- **Ysgrifennydd y Cabinet i ysgrifennu at awdurdodau lleol i holi am yr hyfforddiant a gaiff staff sy'n ymdrin â chwsmeriaid wyneb yn wyneb ac i holi a oes cwestiwn am fod yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog yn cael ei ofyn pan fydd pobl yn cysylltu gyntaf i holi am wasanaethau.**

- 4.16 Cadarnhawyd bod Stephen John wedi'i benodi'n Swyddog Ehangu'r Cadetiaid yng Nghymru. Roedd eisoes yn gweithio gyda Chymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Cytunwyd bod angen cysylltu'n fwy uniongyrchol â'r penaethiaid. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am adroddiad cynnydd erbyn y cyfarfod nesaf.
- 4.17 Dywedodd Jane Williams o Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges fod teuluoedd y Llynges yn ymdoddi i'w cymunedau ac yn cyfrannu atynt, a bod y ddogfen Croeso i Gymru yn ychwanegiad defnyddiol iawn at y cymorth sydd ar gaei i deuluoedd. Cadarnhaodd Jane fod y trafodaethau'n parhau o ran gofal plant a'r cymorth ychwanegol a fydd ar gael.
- 4.18 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Lluoedd Arfog wedi bod yn rhan o'i bortffolio blaenorol a'i fod wedi cyfarfod â phartneriaid mewn lleoliadau milwrol. Roedd wedi gweld sut roedd problemau fel cyflogadwyedd a rhwystrau ieithyddol yn effeithio arnynt. Cadarnhaodd fod angen mynd i'r afael â'r materion hyn a'i fod wrthi'n creu pecynnau gofal plant newydd a allai fod yn ddefnyddiol i deuluoedd y Lluoedd Arfog; caiff ei lansio ddiwedd y flwyddyn.
- 4.19 Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried teithio i ymweld â theuluoedd yn ystod y 12 mis nesaf.

EITEM 5 – UNRHYW FATER ARALL

- 5.1 Gofynnodd y Lefftenant-cyrnol Jonah MacGill sut y mae gwybodaeth yn llifo o'r grŵp hwn i'r grwpiau rhanbarthol a lleol ac i'r gwrthwyneb. Cadarnhaodd Jan Jones fod cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Arbenigol yn cael eu postio ar wefan y Lluoedd Arfog yng Nghymru a dylai pawb a oedd yn bresennol drosglwyddo gwybodaeth. Cadarnhaodd Martin Swain hefyd y dylid rhannu gwybodaeth drwy gyfrwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 5.2 Pwysleisiodd y Lefftenant-cyrnol Jonah MacGill mai'r brif broblem oedd trosglwyddo gwybodaeth o'r Partneriaethau Rhanbarthol i'r Grŵp hwn. Roedd Jan Jones yn cydnabod y gwerth rhanbarthol a bydd yn dechrau ehangu'r broses gyfathrebu.

Cam i'w gymryd:

- **Yr aelodau i ystyried sut y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo o'r Partneriaethau Rhanbarthol i Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog.**
- 5.3 Dywedodd Martin Swain wrth y Grŵp fod y tîm yn parhau i weithio ar y Pecyn Cymorth a'r llyfryn Croeso i Gymru. Roedd Jan Jones yn gobeithio y byddai'r dogfennau'n cael eu lansio yn yr hydref.

- 5.4 Cadarnhaodd William Lynn y caiff Adroddiad Blynyddol Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn ei gyhoeddi cyn y Nadolig a bydd yn cynnwys astudiaethau achos. Croesawodd William y cyfle i aelodau'r Grŵp gynnig rhai astudiaethau achos i'w cynnwys yn yr adroddiad. Gofynnodd Jan Jones iddynt eu hanfon ati hi neu Cerys Gage a byddent hwythau wedyn yn eu hanfon ymlaen at William.

Cam i'w gymryd:

- **Aelodau'r Grŵp sydd am gynnig enghreifftiau o astudiaethau achos i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Weinyddiaeth Amddiffyn i'w hanfon at Jan Jones a Cerys Gage a fydd wedyn yn eu hanfon ymlaen at William Lynn.**

EITEM 6 – DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- 6.1 Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd a chaiff y dyddiad ei gadarnhau yn ystod yr wythnosau nesaf.
- 6.2 Cafodd aelodau'r Grŵp hefyd eu hatgoffa y dylent gael gwahoddiad i'r Gynhadledd Cyfamod Cymunedol ar 15 Medi. Mae'r lleoliad i'w gadarnhau ond mae'n debyg mai yn Stadiwm Dinas Caerdydd y caiff ei chynnal.